

Gweminarau a Gweithdai WAHWN

Chwefror a Mawrth 2021

Gwella Amgylcheddau Gofal Iechyd

Gweithdai: Mawrth 16 Mawrth; 1 – 3pm

Mawrth 23 Mawrth; 1 – 3pm

Mawrth 30 Mawrth; 1 – 3pm

Cost mynychu'r tri gweithdy: £60 i sefydliadau / £25 i unigolion ynghyd â ffi archebu a chyfyngir niferoedd y cyfranogwyr i 15

Trosolwg o'r Gweithdy

Nod y gyfres hon o weithdai yw cynorthwyo penseiri, artistiaid, rheolwyr prosiectau cyfalaf a chleientiaid iechyd i integreiddio celf i amgylcheddau gofal iechyd er mwyn creu mannau nodedig a chroesawgar, wedi'u gwreiddio mewn pobl a lle, sy'n gwneud i gleifion a staff deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae'r gweithdai'n seiliedig ar waith arobryn Willis Newson dros y 25 mlynedd ddiwethaf, yn cynnwys rhaglen celf gyhoeddus i Uned Gofal Lliniarol Arbenigol Y Bwthyn NGS Macmillan yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, gan edrych ar sut gall defnydd sensitif a phriodol o gelf gynnig difyrwch, galluogi adfyfrio a chynorthwyo i ganfod ffyrdd ar draws amrywiol leoliadau gofal iechyd.

Caiff yr hyfforddiant ei daenu dros dri gweithdy ar-lein, a bydd yn broses cam wrth gam gyda chymorth dogfennau templed ac arweiniad ymarfer gorau, yn seiliedig ar brofiad Willis Newson o gyflwyno rhaglenni celfyddydau a gofal iechyd arobryn.

Nod y rhaglen gweithdai yw eich galluogi i gomisiynu a chyflwyno gweithiau celf integredig â ffocws ar y claf i gyfoethogi amgylcheddau gofal iechyd a bydd yn edrych ar y canlynol:

- Tystiolaeth ynghylch buddion integreiddio celf mewn amgylcheddau gofal iechyd
- Sut i osod cyllideb ac adeiladu Achos Busnes ar gyfer celf
- Pryd i ystyried celf yn y broses ddatblygu
- Sut i nodi lleoliadau celf mewn perthynas ag anghenion cleifion a chyfleoedd pensaernïol
- Sut i benderfynu pa fath o waith celf sydd orau i'ch cyd-destun chi
- Sut i ddod o hyd i'r artist cywir a chyflwyno comisiwn
- Sut i gyfarwyddo, rheoli a chefnogi artist i gyflenwi eu gwaith gorau
- Sut i ennyn diddordeb cleifion, staff a'r gymuned ehangach yn y broses
- Sut i sicrhau bod y gweithiau celf yn ddiogel ac yn addas i'r diben

Bydd y gweithdai'n tynnu ar brofiad hir o weithio gydag artistiaid, penseiri, datblygwyr, cleientiaid gofal iechyd a chleifion ar draws amrywiol amgylcheddau gofal iechyd. Bydd yn cynnwys cyfuniad o gynnwys a addysgir, astudiaethau achos a rhannu a thrafod rhyngweithiol.

The Trainer

Arweinir y rhaglen gan Gyfarwyddwr [Willis Newson](#) Jane Willis. Mae Jane yn arloeswr ym maes y celfyddydau ac iechyd, a sefydlodd Vital Arts, rhaglen celfyddydau Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Bart's, yn 1994. Ers hynny, fel Cyfarwyddwr yr ymgynghoriaeth Celfyddydau, Iechyd a Llesiant Willis Newson, mae wedi gweithio gyda phartneriaid iechyd a chelfyddydau ar draws y DU – yn cynnwys dros 32 o Ymddiriedolaethau a Byrddau Iechyd y GIG, Cyngor Celfyddydau Cymru, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Arts Council England, Cronfa Kings a'r Gymdeithas Iechyd Cyhoeddus Frenhinol - i gynhyrchu rhaglenni celf, iechyd a llesiant sydd wedi'u gwobrwyo.

Mae ganddi ddiddordeb penodol mewn datblygu datrysiadau creadigol i anghenion iechyd strategol a chefnogi datblygu sgiliau yn y sector. Gan weithio gyda'r Athro Norma Daykin, sydd ar hyn o bryd yn Athro yn y Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol Newydd ym Mhrifysgol Tampere, y Ffindir, mae wedi cyfrannu at wella ymarfer gwerthuso yn y sector drwy raglenni ymchwil, hyfforddiant ac adnoddau gan gynnwys www.creativeandcredible.co.uk